CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**
**01766 832 398  clerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

# AGENDA Cyfarfod Arferol

**● 7pm – 12 / 05 / 2025 ● Siambr y Cyngor ac ar-lein**

---

## Siambr y Cyngor ac Ar-lein

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A] NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol**

https://us02web.zoom.us/j/81703462691?pwd=tuTgrPbO4cNnR6lhufkcQJObEEmYDn.1

Meeting ID: 817 0346 2691
Passcode: 162364

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 12 MAI 2025 AM 7.00PM**

**AT GADEIRYDD AC AELODAU CYNGOR TREF FFESTINIOG. FE’CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG. MAE HAWL GAN AELODAU’R CYHOEDD I FYNYCHU’R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

**Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i’r cyfarfod ddod i ben.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |
| **2.** | | **Datgan Buddiannau**<br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu’r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| **3.** | | **Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Dalier Sylw: trafodaeth yn unig; ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei ddodi ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** |
| **4.** | | **Diweddariad gan yr Heddlu**<br>I dderbyn unrhyw ddiweddariad gan yr Heddlu. |
| **5.** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| **6.** | | **Derbyn a chadarnhau Cofnodion**<br>Cofnodion Cyngor Arferol – 14eg Ebrill 2025, copi ynghlwm.<br>Argymhellion Pwyllgor Cynllunio a Rheoleiddio – 23ain Ebrill 2025, copi ynghlwm.<br>Argymhellion Pwyllgor Mwynderau – 23ain Ebrill 2025, copi ynghlwm.<br>Cofnodion Cyngor Anarferol – 28ain Ebrill 2025, copi ynghlwm.<br>Argymhellion Pwyllgor Digwyddiadau – 6ed Mai 2025, copi ynghlwm |
| **7.** | | **Ysgol Maenofferen – Sefyllfa Parcio**<br>Derbyn ac ystyried llythyr gan Bennaeth Ysgol Maenofferen, mewn ymateb i lythyr gan y Cyngor Tref ynglŷn â’r sefyllfa parcio, copi ynghlwm. |
| **8.** | | **Lloches Bws Gyferbyn â Wynne’s**<br>Ystyried gohebaieth a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Sir Geraint Parry, copi ynghlwm. |
| **9.** | | **Caffi’r Pafiliwn**<br>Diweddariad ar sefyllfa’r Caffi – adroddiad llafar yn y cyfarfod os oes unrhyw beth i’w adrodd. |

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | | **Rhestr Taliadau**<br>Cymeradwyo rhestr o daliadau i’w gwneud ym mis Ebrill 2025, copi ynghlwm. |
| **11.** | | **Rhybudd o Gynnig**<br>Ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol, gan Y Cynghorydd Rory Francis:<br>*Rwyf yn cynnig fod y Cyngor Tref yn ysgrifennu at Reilffordd Ffestiniog, yn sgil y tân ofnadwy yn y Garnedd uwchben Llyn Mair ar y 10fed o Ebrill, i ofyn a fyddai’r cwmni yn ystyried mynd yn ôl i ddefnyddio olew yn eu peiriannau yn hytrach glo, a hynny er mwyn lleihau’r perygl o danau gwyllt fel hyn.*<br><br>*A gaiff y Cyngor ofyn hefyd, faint o beiriannau y mae’r Rheilffordd yn ddefnyddio sy’n llosgi glo, a faint o’r rhain sydd â “Self-cleaning spark arrestors”.*<br><br>*Nid oes gan y Cyngor unrhyw wybodaeth am achos y tân yn y Garnedd ar y 10fed o Fai ac nid yw'n dymuno awgrymu fod unrhyw unigolyn neu gorff yn gyfrifol. Ond mi fyddai’r Cyngor yn croesawu unrhyw gamau i leihau perygl tanau fel hyn sy’n dinistrio cynefin cyfan a llawer o'r creaduriaid sy’n byw ynddo fo.* |
| **12.** | | **Maes Parcio’r Berllan**<br>Ystyried yr ohebiaeth ganlynol, gan y pensaer, copi ynghlwm. |
| **13.** | | **Heritage in Your Hands**<br>Ystyried yr ohebiaeth gan Heritage in Your Hands, copi ynghlwm. |
| **14.** | | **Diffibriliwr Tai’r Gelli**<br>Cadarnhau bod y Cyngor Tref yn mabwysiadu diffibriliwr Tai’r Gelli yn swyddogol. |

Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref
DYDDIAD: 7fed Mai 2025